

## RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

### Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) Public Health (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant  
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu  
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest  
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling  
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—

The Bill will be considered in the following order—

|                    |                       |
|--------------------|-----------------------|
| Sections 3 to 26   | Adran 3 i 26          |
| Section 2          | Adran 2               |
| Sections 27 to 52  | Adran 27 i 52         |
| Sections 54 to 91  | Adran 54 i 91         |
| Section 53         | Adran 53              |
| Sections 92 to 124 | Adran 92 i 124        |
| Schedules 1 to 4   | Atodlen 1 i Atodlen 4 |
| Section 1          | Adran 1               |
| Long title         | Teitl Hir             |

**Rhun ap Iorwerth**

3

Page 2, after line 21, insert a new section—



## **'PART [ ]**

### **OBESITY**

#### **[ ] National strategy on preventing and reducing obesity: publication and review**

- (1) The Welsh Ministers must publish a national strategy on preventing obesity, and reducing obesity levels, in Wales.
- (2) The strategy must—
  - (a) specify objectives the Welsh Ministers consider will, if achieved, contribute towards preventing obesity;
  - (b) specify objectives the Welsh Ministers consider will, if achieved, contribute towards reducing obesity levels;
  - (c) identify how the Welsh Ministers propose to achieve the specified objectives.
- (3) The Welsh Ministers must review the strategy—
  - (a) at the end of the period of three years beginning with the date of first publication of the strategy, and
  - (b) at the end of each subsequent period of three years.
- (4) The Welsh Ministers may revise the strategy at any time.
- (5) If the Welsh Ministers revise the strategy, they must publish the revised strategy as soon as it is reasonably practicable to do so.
- (6) The Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate—
  - (a) before they first publish the strategy, and
  - (b) subsequently, before each review under subsection (3).

Tudalen 2, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd—

## **'RHAN [ ]**

### **GORDEWDRA**

#### **[ ] Strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra: cyhoeddi ac adolygu**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra, a lleihau lefelau gordewdra, yng Nghymru.
- (2) Rhaid i'r strategaeth—
  - (a) pennu amcanion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddant, os y'u cyflawnir, yn cyfrannu at atal gordewdra;
  - (b) pennu amcanion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddant, os y'u cyflawnir, yn cyfrannu at leihau lefelau gordewdra;
  - (c) nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcanion penodedig.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth—



- (a) ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth am y tro cyntaf, a
  - (b) ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o dair blynedd.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r strategaeth ar unrhyw adeg.
  - (5) Os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio'r strategaeth, rhaid iddynt gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.
  - (6) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol –
    - (a) cyn iddynt gyhoeddi'r strategaeth am y tro cyntaf, a
    - (b) ar ôl hynny, cyn pob adolygiad o dan is-adran (3).'

#### Rhun ap Iorwerth

4

Page 2, after line 21, insert a new section –

#### [ ] **Implementation of national strategy**

- (1) The Welsh Ministers must take all reasonable steps to achieve the objectives specified in the most recently published strategy under section [*New section inserted by amendment 3*].
- (2) Following each review of the strategy under section [*New section inserted by amendment 3*] (3) the Welsh Ministers must publish a progress report.
- (3) A progress report is a report on progress made in achieving objectives specified in the strategy.'

Tudalen 2, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd –

#### [ ] **Gweithredu'r strategaeth genedlaethol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a bennir yn y strategaeth a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar o dan adran [*Adran newydd a fewnosodir gan welliant 3*].
- (2) Yn dilyn pob adolygiad o'r strategaeth o dan adran [*Adran newydd a fewnosodir gan welliant 3*](3) rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad cynnydd.
- (3) Mae adroddiad cynnydd yn adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a bennir yn y strategaeth.'

#### Rebecca Evans

6

Section 4, page 3, after line 20, insert –

- '( ) A person who controls or is concerned in the management of premises within section [*New section inserted by amendment 8*](3) (registered day care premises) that are smoke free by virtue of section [*New section inserted by amendment 8*] must take reasonable steps to cause a person smoking there to stop smoking.



- ( ) A person registered to act as a child minder under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 (nawm 1) must take reasonable steps to cause a person smoking in premises within subsection (*Third subsection inserted by this amendment*) to stop smoking.
- ( ) Premises are within this subsection if –
  - (a) they form part of premises that are the usual place of residence of the registered person referred to in subsection (*Second subsection inserted by this amendment*), and
  - (b) they are smoke free by virtue of section [*New section inserted by amendment 8*].’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘( ) Rhaid i berson a chanddo reolaeth dros fangre, neu sy’n ymwneud â rheoli mangre, o fewn adran [*Adran newydd a fewnosodir gan welliant 8*](3) (mangreodd gofal dydd cofrestredig) sy’n ddi-fwg yn rhinwedd adran [*Adran newydd a fewnosodir gan welliant 8*] gymryd camau rhesymol i beri i berson sy’n ysmegu yno beidio ag ysmegu.
- ( ) Rhaid i berson sydd wedi ei gofrestru i weithredu fel gwarchodwr plant o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) gymryd camau rhesymol i beri i berson sy’n ysmegu mewn mangre o fewn is-adran (*y drydedd is-adran a fewnosodir gan y gwelliant hwn*) beidio ag ysmegu.
- ( ) Mae mangre o fewn yr is-adran hon –
  - (a) os yw’n rhan o fangre sy’n fan preswyllo arferol y person cofrestredig y cyfeirir ato yn is-adran (*yr ail is-adran a fewnosodir gan y gwelliant hwn*), a
  - (b) os yw’n ddi-fwg yn rhinwedd adran [*Adran newydd a fewnosodir gan welliant 8*].’.

## Rebecca Evans

7

Section 4, page 3, line 27, leave out ‘the duty in subsection (1)’ and insert ‘a duty in subsection (1), (*first subsection inserted by amendment 6*) or (*second subsection inserted by amendment 6*)’.

Adran 4, tudalen 3, llinell 29, hepgorer ‘â’r ddyletswydd yn is-adran (1)’ a mewnosoder ‘â dyletswydd yn is-adran (1), (*yr is-adran gyntaf a fewnosodir gan welliant 6*) neu (*yr ail is-adran a fewnosodir gan welliant 6*)’.

## Rebecca Evans

8

Page 4, after line 32, insert a new section –

### [ ] Outdoor care settings for children

- (1) Outdoor care settings in Wales are smoke free for the purposes of this Chapter.
- (2) Premises are an outdoor care setting so far as –
  - (a) they are not enclosed or substantially enclosed, and
  - (b) they are within subsection (3) or (4).
- (3) Premises are within this subsection if –



- (a) they are registered under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 (nawm 1) (the “2010 Measure”) as being premises at which a person is authorised to provide day care for children, or
  - (b) they form part of premises that are so registered.
- (4) Premises are within this section if they form part of premises (the “domestic premises”) that are the usual place of residence of a person registered to act as a child minder under Part 2 of the 2010 Measure.
- (5) An outdoor care setting within subsection (3) is smoke free by virtue of this section only when day care for children is being provided –
- (a) in the outdoor care setting, or
  - (b) in premises registered under Part 2 of the 2010 Measure (whether or not enclosed or substantially enclosed) of which the outdoor care setting forms part.
- (6) An outdoor care setting within subsection (4) is smoke free by virtue of this section only when –
- (a) the child minder is acting as a child minder in the domestic premises (whether or not in a part of them that is enclosed or substantially enclosed) for at least one child, and
  - (b) that child or, as the case may be, at least one of those children is in the outdoor care setting.
- (7) For the purposes of this section, references to providing day care and acting as a child minder have the same meaning as in the 2010 Measure.
- (8) Premises are not to be treated as being within subsection (3) or (4) so far as they consist of the grounds of a school (for which see section 7 (school grounds)).’.

Tudalen 4, ar ôl llinell 38, mewnosoder adran newydd –

#### [ ] **Lleoliadau gofal awyr agored i blant**

- (1) Mae lleoliadau gofal awyr agored yng Nghymru yn ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon.
- (2) Mae mangre yn lleoliad gofal awyr agored i’r graddau –
  - (a) nad yw’n gaeedig nac yn sylweddol gaeedig, a
  - (b) y mae o fewn is-adran (3) neu (4).
- (3) Mae mangre o fewn yr is-adran hon –
  - (a) os yw wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) (“Mesur 2010”) fel mangre y mae person wedi ei awdurdodi i ddarparu gofal dydd i blant ynddi, neu
  - (b) os yw’n rhan o fangre sydd wedi ei chofrestru yn y modd hwnnw.
- (4) Mae mangre o fewn yr adran hon os yw’n rhan o fangre (y “mangre ddomestig”) sy’n fan preswyllo arferol person sydd wedi ei gofrestru i weithredu fel gwarchodwr plant o dan Ran 2 o Fesur 2010.
- (5) Nid yw lleoliad gofal awyr agored o fewn is-adran (3) yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon ond pan yw gofal dydd i blant yn cael ei ddarparu –



- (a) yn y lleoliad gofal awyr agored, neu
  - (b) mewn mangre sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Fesur 2010 (pa un a yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig ai peidio) y mae'r lleoliad gofal awyr agored yn rhan ohoni.
- (6) Nid yw lleoliad gofal awyr agored o fewn is-adran (4) yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon ond—
- (a) pan yw'r gwarchodwr plant yn gweithredu fel gwarchodwr plant yn y fangre ddomestig (pa un ai mewn rhan ohoni sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig ai peidio) ar gyfer o leiaf un plentyn, a
  - (b) pan yw'r plentyn hwnnw neu, yn ôl y digwydd, o leiaf un o'r plant hynny yn y lleoliad gofal awyr agored.
- (7) At ddibenion yr adran hon, mae i'r cyfeiriadau at ddarparu gofal dydd a gweithredu fel gwarchodwr plant yr un ystyr ag ym Mesur 2010.
- (8) Nid yw mangre i gael ei thrin fel pe bai o fewn is-adran (3) neu (4) i'r graddau y mae'n dir ysgol (gweler adran 7 (tir ysgolion) am hyn).'

**Rebecca Evans**

9

Section 10, page 6, line 27, leave out 'section 5, 6, 7, 8 or' and insert 'sections 5 to'.

Adran 10, tudalen 6, llinell 29, hepgorer 'adran 5, 6, 7, 8 neu' a mewnosoder 'adrannau 5 i'.

**Rebecca Evans**

10

Section 10, page 7, after line 7, insert—

- '(7) Regulations under this section may not make provision in respect of premises used wholly or mainly as a dwelling; and to the extent that they make provision for premises used partly as a dwelling to be treated as smoke-free premises, regulations under this section must comply with section 11.'

Adran 10, tudalen 7, ar ôl llinell 8, mewnosoder—

- '(7) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth mewn cysylltiad â mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd; ac i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth i fangre a ddefnyddir yn rhannol fel annedd gael ei thrin fel mangre ddi-fwg, rhaid i reoliadau o dan yr adran hon gydymffurfio ag adran 11.'

**Rebecca Evans**

11

Section 11, page 7, line 9, leave out 'to any extent' and insert 'partly'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 10, hepgorer 'i unrhyw raddau' a mewnosoder 'yn rhannol'.

**Rebecca Evans**

12

Section 11, page 7, line 11, leave out 'this section' and insert 'the following requirements'.



Adran 11, tudalen 7, llinell 12, hepgorer 'adran hon' a mewnosoder 'gofynion a ganlyn'.

**Rebecca Evans** 13

Section 11, page 7, leave out line 21.

Adran 11, tudalen 7, hepgorer llinell 22.

**Rebecca Evans** 14

Section 11, page 7, line 23, leave out ', and only if a person under 18 is present in that part'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 25, hepgorer ', a dim ond os yw person o dan 18 oed yn bresennol yn y rhan honno'.

**Rebecca Evans** 15

Section 15, page 9, line 28, after 'is', insert 'authorised to act as'.

Adran 15, tudalen 9, llinell 31, hepgorer 'yn' a mewnosoder 'wedi ei awdurdodi i weithredu fel'.

**Rebecca Evans** 16

Section 15, page 9, line 31, after 'be', insert 'authorised to act as'.

Adran 15, tudalen 9, llinell 33, hepgorer 'fod yn' a mewnosoder 'gael ei awdurdodi i weithredu fel'.

**Rebecca Evans** 17

Section 15, page 9, line 33, leave out 'it is an enforcement authority' and insert ', by virtue of this section, it is authorised to act'.

Adran 15, tudalen 9, llinell 36, hepgorer 'mae'n awdurdod gorfodi' a mewnosoder 'mae, yn rhinwedd yr adran hon, wedi ei awdurdodi i weithredu'.

**Rebecca Evans** 18

Section 24, page 13, line 35, leave out 'designated' and insert 'authorised to act'.

Adran 24, tudalen 13, llinell 37, hepgorer 'ddynodi' a mewnosoder 'awdurdodi i weithredu'.

**Rebecca Evans** 19

Section 24, page 14, line 4, leave out 'designated' and insert 'authorised to act'.

Adran 24, tudalen 14, llinell 5, hepgorer 'ddynodi' a mewnosoder 'awdurdodi i weithredu'.



**Rebecca Evans** 20

Section 25, page 15, line 1, leave out 'means a person, or description of person, specified in regulations under' and insert 'is to be interpreted in accordance with'.

Adran 25, tudalen 14, llinell 29, hepgorer 'ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw person, neu ddisgrifiad o berson, a bennir mewn rheoliadau o dan' a mewnosoder 'mae "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") i gael ei ddehongli yn unol ag'.

**Angela Burns** 32

Section 27, page 17, line 17, leave out 'the registration authority considers appropriate' and insert 'is information of a description required, by regulations under section 28(3)(b), to be included in an application for registration'.

Adran 27, tudalen 17, llinell 16, hepgorer 'y mae'r awdurdod cofrestru yn ystyried ei bod yn briodol' a mewnosoder 'sy'n wybodaeth o ddisgrifiad y mae'n ofynnol, drwy reoliadau o dan adran 28(3)(b), ei chynnwys mewn cais i gofrestru'.

**Rebecca Evans** 21

Section 28, page 18, line 28, after 'application', insert '(including, in the case of an application by a person who proposes to carry on a tobacco or nicotine business as described in subsection (2)(e), information relating to the nature of the arrangements concerned)'.

Adran 28, tudalen 18, llinell 24, ar ôl 'cais', mewnosoder '(gan gynnwys, yn achos cais gan berson sy'n bwriadu cynnal busnes tybaco neu nicotin fel y'i disgrifir yn is-adran (2)(e), wybodaeth sy'n ymwneud â natur y trefniadau o dan sylw)'.

**Rebecca Evans** 22

Section 60, page 34, after line 29, insert –

'( ) standards of competence relevant to performing a special procedure (including standards specified by reference to, among other things, qualifications or experience), or performing a special procedure upon a specified part of an individual's body;'

Adran 60, tudalen 34, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

'( ) â safonau cymhwysedd sy'n berthnasol i roi triniaeth arbennig (gan gynnwys safonau a bennir drwy gyfeirio at, ymhlith pethau eraill, gymwysterau neu brofiad), neu roi triniaeth arbennig i ran benodedig o gorff unigolyn;'

**Rebecca Evans** 23

Section 63, page 37, line 2, after 'whether', insert ', and, if so, to what extent,'.

Adran 63, tudalen 37, llinell 2, ar ôl 'chodi', mewnosoder ', ac os felly, i ba raddau,'.





**Rebecca Evans** 24

Section 65, page 37, line 34, leave out ‘, in a material particular,’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Rebecca Evans** 25

Section 72, page 43, line 4, after ‘maintain’, insert ‘and publish’.

Adran 72, tudalen 43, llinell 4, ar ôl ‘gynnal’, mewnosoder ‘a chyhoeddi’.

**Rebecca Evans** 26

Section 72, page 43, line 35, leave out subsection (5).

Adran 72, tudalen 43, llinell 35, hepgorer is-adran (5).

**Caroline Jones** 36

Page 56, after line 16, insert a new section –

**‘PART [ ]**

**TATTOOING OF AN EYEBALL**

**[ ] Prohibition of the tattooing of an eyeball**

- (1) It is an offence for a person in Wales to tattoo an eyeball (“tattooing of an eyeball”) of a person except when the tattooing of an eyeball is performed by a person regulated by the General Medical Council.
- (2) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine.’.

Tudalen 56, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

**‘RHAN [ ]**

**TATŴIO PELEN Y LLYGAD**

**[ ] Gwahardd tatŵio pelen y llygad**

- (1) Mae’n drosedd i berson yng Nghymru datŵio pelen llygad (“tatŵio pelen y llygad”) person ac eithrio pan fo’r drinaeth o datŵio pelen y llygad yn cael ei rhoi gan berson sydd wedi ei reoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.
- (2) Mae person sy’n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.’.



Caroline Jones

37

Page 56, after line 16, insert a new section –

*'Enforcement*

**[ ] Enforcement action by local authorities**

- (1) A local authority may –
  - (a) bring prosecutions in respect of offences in its area under section [section to be inserted by amendment 36];
  - (b) investigate complaints in respect of alleged offences in its area under section [section to be inserted by amendment 36];
  - (c) take any other steps with a view to reducing the incidence of offences under section [section to be inserted by amendment 36] in its area.
- (2) A local authority must –
  - (a) consider, at least once in every period of twelve months, the extent to which it is appropriate for the authority to carry out in its area a programme of enforcement action in relation to section [section to be inserted by amendment 36], and
  - (b) to the extent that it considers it appropriate to do so, carry out such a programme.
- (3) For the purposes of subsection (2), a programme of enforcement action in relation to section [section to be inserted by amendment 36] is a programme involving the taking of all or any of the steps referred to in subsection (1).
- (4) For the purpose of the exercise of its functions under subsection (2), a local authority must carry out such consultation as it considers appropriate with the chief officer of police for a police area any part of which falls within the area of the local authority.
- (5) The Welsh Ministers may make regulations about the enforcement of this Part.'

Tudalen 56, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

*'Gorfodi*

**[ ] Camau gorfodi gan awdurdodau lleol**

- (1) Caiff awdurdod lleol –
  - (a) dwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau yn ei ardal o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 36];
  - (b) ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throseddau honedig yn ei ardal o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 36];
  - (c) cymryd unrhyw gamau eraill gyda golwg ar ostwng nifer y troseddau sy'n digwydd o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 36] yn ei ardal.
- (2) Rhaid i awdurdod lleol –



- (a) ystyried, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis, i ba raddau y mae'n briodol i'r awdurdod gynnal yn ei ardal raglen o gamau gorfodi mewn perthynas ag adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 36*], a
  - (b) i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gynnal rhaglen o'r fath.
- (3) At ddibenion is-adran (2), mae rhaglen o gamau gorfodi mewn perthynas ag adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 36*] yn rhaglen sy'n golygu cymryd pob un neu unrhyw un neu ragor o'r camau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).
  - (4) At ddiben arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (2), rhaid i awdurdod lleol gynnal unrhyw ymgynghoriad y mae'n ystyried ei fod yn briodol â phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol.
  - (5) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gorfodi'r Rhan hon.'.

**Caroline Jones**

38

Page 56, after line 16, insert a new section –

**[ ] Interpretation of this Part**

In this Part –

“tattooing of an eyeball” (“*tatwio pelen y llygad*”) means the insertion into punctures made in an individual’s eye of any material designed to leave a semi-permanent or permanent mark.’.

Tudalen 56, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Dehongli'r Rhan hon**

Yn y Rhan hon –

ystyr “*tatwio pelen y llygad*” (“*tattooing of an eyeball*”) yw mewnosod mewn priciau a wnaed mewn llygad unigolyn unrhyw ddeunydd a ddyluniwyd i adael marc lled-barhaol neu barhaol.’.

**Caroline Jones**

39

Section 110, page 67, line 31, leave out ‘setting out the steps which the local authority proposes to take to meet that need’ and insert ‘outlining how the local authority will address that need in an effective and timely way’.

Adran 110, tudalen 67, llinell 33, hepgorer ‘nodi'r camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r angen hwnnw’ a mewnosoder ‘amlinellu sut y bydd yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r angen hwnnw mewn ffordd effeithiol ac amserol’.

**Caroline Jones**

40

Section 110, page 68, after line 34, insert –



'( ) ensuring there is adequate provision of toilets to be available for use by the public,'.

Adran 110, tudalen 68, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

'( ) sicrhau bod darpariaeth ddigonol o doiledau ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd,'.

**Caroline Jones**

**27A**

As an amendment to amendment 27, line 1, after 'authorities' insert 'to ensure there is adequate provision of toilets to be available for use by the public, across local authority areas'.

Fel gwelliant i welliant 27, llinell 1, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol o doiledau ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd, ar draws ardaloedd awdurdodau lleol'.

**Rebecca Evans**

**27**

Section 110, page 68, after line 35, insert –

'( ) collaboration between local authorities.'

Adran 110, tudalen 68, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

'( ) cydweithredu rhwng awdurdodau lleol.'

**Angela Burns**

**33**

Page 70, after line 34, insert a new section –

**'PART [ ]**

**IMPROVING AND PROTECTING THE HEALTH AND WELL-BEING OF YOUNG PERSONS**

**[ ] Report on collaboration: health and well-being of young persons**

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a report setting out how the relevant persons collaborate with each other in improving and protecting the health and well-being of young persons in Wales.
- (2) The report must set out how the relevant persons collaborate in relation to –
  - (a) addressing obesity levels of young persons;
  - (b) securing the provision of adequate nutrition to young persons;
  - (c) raising awareness of physical and mental health issues among young persons;
  - (d) the promotion of public health initiatives that are relevant to young persons.
- (3) The relevant persons are –
  - (a) each local authority,



- (b) each Local Health Board,
  - (c) an NHS Trust, and
  - (d) such other persons the Welsh Ministers consider appropriate.
- (4) The Welsh Ministers must consult the relevant persons when preparing a report.
- (5) The Welsh Ministers must publish the first report no later than 18 months beginning with the date on which this Act receives Royal Assent.
- (6) Subsequently, the Welsh Ministers must publish a report every 12 months.
- (7) The Welsh Ministers must lay each report before the National Assembly for Wales.
- (8) In this section –
- “Local Health Board” means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42);
  - “NHS Trust” means a National Health Service Trust constituted under the National Health Service (Wales) Act 2006;
  - “young persons” means persons under the age of 25.’.

Tudalen 70, ar ôl llinell 37, mewnosoder adran newydd –

## ‘RHAN [ ]

### GWELLA A GWARCHOD IECHYD A LLESIANT POBL IFANC

#### [ ] **Adroddiad ar gydweithredu: Iechyd a llesiant pobl ifanc**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy’n nodi sut y mae’r personau perthnasol yn cydweithio â’u gilydd i wella a gwarchod iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.
- (2) Rhaid i’r adroddiad nodi sut y mae’r personau perthnasol yn cydweithredu mewn perthynas ag –
- (a) mynd i’r afael â lefelau gordewdra pobl ifanc;
  - (b) sicrhau y darperir maeth digonol i bobl ifanc;
  - (c) cynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd corfforol ac iechyd meddwl ymysg pobl ifanc;
  - (d) hyrwyddo mentrau iechyd y cyhoedd sy’n berthnasol i bobl ifanc.
- (3) Y personau perthnasol yw –
- (a) pob awdurdod lleol,
  - (b) pob Bwrdd Iechyd Lleol,
  - (c) Ymddiriedolaeth y GIG, a
  - (d) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r personau perthnasol wrth baratoi adroddiad.



- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad cyntaf heb fod yn hwyrach na 18 mis yn dechrau â'r dyddiad y mae'r Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol.
- (6) Yn dilyn hynny, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad bob 12 mis.
- (7) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno pob adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (8) Yn yr adran hon—
  - ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42);
  - ystyr "pobl ifanc" yw pobl ifanc o dan 25 oed;
  - ystyr "Ymddiriedolaeth y GIG" yw Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.'.

**Simon Thomas**

**44**

Page 70, after line 34, insert a new section—

## **'PART [ ]**

### **AIR POLLUTION AND AIR QUALITY**

#### **[ ] Air pollution strategy: preparation, implementation and review**

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a national air pollution strategy which must include—
  - (a) the steps and actions that the Welsh Ministers will take to reduce air pollution in Wales;
  - (b) the steps that the Welsh Ministers will take to ensure that when publishing data concerning the monitoring of air quality levels in Wales, that such data is published—
    - (i) in an accessible format, and
    - (ii) that informs residents about air quality levels for their area and the impact that it may have on their health;
  - (c) any other information which the Welsh Ministers consider appropriate.
- (2) The Welsh Ministers and public bodies must, when exercising any of their functions, have due regard to the requirements of the strategy.
- (3) The Welsh Ministers must publish the strategy no later than 6 months after the publication of the UK Government's Air Quality Plan, as revised from time to time.
- (4) Subsequently, the Welsh Ministers must review and publish the national air pollution strategy every three years.
- (5) The Welsh Ministers may also review the strategy at any time.



- (6) When the Welsh Ministers review the strategy they must publish a statement of the steps and progress made which they have taken in accordance with the strategy during the period—
  - (a) beginning with the date on which the strategy was last published, and
  - (b) ending with the date on which that review commenced.
- (7) When the Welsh Ministers review the strategy and consider that a change is needed, they must—
  - (a) revise the strategy, and
  - (b) publish the revised strategy.’.

Tudalen 70, ar ôl llinell 37, mewnosoder adran newydd—

## ‘RHAN [ ]

### LLYGREDD AER AC ANSAWDD AER

#### [ ] **Strategaeth llygredd aer: llunio, gweithredu ac adolygu**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth llygredd aer genedlaethol y mae’n rhaid iddi gynnwys—
  - (a) y camau a’r camau gweithredu y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i leihau llygredd aer yng Nghymru;
  - (b) y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau, wrth gyhoeddi data ynghylch monitro lefelau ansawdd aer yng Nghymru, y cyhoeddir data o’r fath—
    - (i) mewn fformat hygrych, a
    - (ii) sy’n hysbysu preswylwyr am lefelau ansawdd aer ar gyfer eu hardal a’r effaith y gallai ei chael ar eu hiechyd;
  - (c) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus, wrth arfer unrhyw un o’u swyddogaethau, roi sylw priool i ofynion y strategaeth.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi’r strategaeth heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl cyhoeddi Cynllun Ansawdd Aer Llywodraeth y DU, fel y’i diwygir o dro i dro.
- (4) Wedi hynny, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu a chyhoeddi’r strategaeth llygredd aer genedlaethol bob tair blynedd.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu’r strategaeth hefyd unrhyw bryd.
- (6) Pan yw Gweinidogion Cymru yn adolygu’r strategaeth rhaid iddynt gyhoeddi datganiad o’r camau y maent wedi eu cymryd a’r cynnydd y maent wedi ei wneud yn unol â’r strategaeth yn ystod y cyfnod—
  - (a) sy’n dechrau â’r dyddiad y cyhoeddwyd y strategaeth ddiwethaf, a
  - (b) sy’n dod i ben â’r dyddiad y dechreuodd yr adolygiad hwnnw.



- (7) Pan yw Gweinidogion Cymru yn adolygu'r strategaeth ac yn ystyried bod angen ei newid, rhaid iddynt –
- (a) diwygio'r strategaeth, a
  - (b) cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.'.

**Simon Thomas**

**45**

Page 70, after line 34, insert a new section –

**[ ] Air pollution levels: guidance**

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance to local health boards on how the boards should alert residents about forecasted high air pollution levels for their area.
- (2) A local health board to which guidance is issued under this section must have regard to it.
- (3) Before issuing guidance under this section the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.
- (4) The Welsh Ministers may revise guidance issued under subsection (1).
- (5) In this section “local health boards” (“*byrddau iechyd lleol*”) means local health boards established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006.'.

Tudalen 70, ar ôl llinell 37, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Lefelau llygredd aer: canllawiau**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i fyrddau iechyd lleol ynghylch sut y dylai'r byrddau rybuddio preswylwyr ynghylch lefelau llygredd aer uchel a ragwelir ar gyfer eu hardal.
- (2) Rhaid i fwrdd iechyd lleol y dyroddir canllawiau iddo o dan yr adran hon roi sylw iddynt.
- (3) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan is-adran (1).
- (5) Yn yr adran hon ystyr “byrddau iechyd lleol” (“*local health boards*”) yw byrddau iechyd lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.'.

**Simon Thomas**

**46**

Page 70, after line 34, insert a new section –

**[ ] Air quality outside schools and on active travel routes: guidance**

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance to local authorities on how authorities should monitor air quality levels under the Air Quality Standards (Wales) Regulations 2010, as amended from time to time, outside the grounds of a school and on active travel routes for their area.





- (2) A local authority to which guidance is issued under this section must have regard to it.
- (3) Before issuing guidance under this section the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.
- (4) The Welsh Ministers may revise guidance issued under subsection (1).
- (5) In this section—
  - “school” has the meaning given by section 4 of the Education Act 1996 (c.56);
  - “Active travel route” (“*llwybr teithio llesol*”) has the meaning given by section 2 of the Active Travel (Wales) Act 2013.’.

Tudalen 70, ar ôl llinell 37, mewnosoder adran newydd —

**[ ] Ansawdd aer y tu allan i ysgolion ac ar lwybrau teithio llesol: canllawiau**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai awdurdodau fonitro lefelau ansawdd aer o dan Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010, fel y’u diwygir o dro i dro, y tu allan i dir ysgol ac ar lwybrau teithio llesol ar gyfer eu hardal.
- (2) Rhaid i awdurdod lleol y dyroddir canllawiau iddo o dan yr adran hon roi sylw iddynt.
- (3) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan is-adran (1).
- (5) Yn yr adran hon—
  - mae i “llwybr teithio llesol” (“*active travel route*”) yr ystyr a roddir gan adran 2 o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
  - mae i “ysgol” yr ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56).’.

**David Melding**

**30**

Page 71, after line 2, insert a new section —

*‘Guidance about entering dwellings*

**[ ] Guidance about entering dwellings**

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance to enforcement authorities, constables and authorised officers about entering premises used wholly or mainly as a dwelling under this Act.
- (2) The guidance must include guidance about complying with—
  - (a) Article 8 (right to respect for private and family life) of, and
  - (b) Article 1 of Protocol 1 (protection of property) to,the European Convention on Human Rights.
- (3) An enforcement authority, a constable and an authorised officer must have regard to the guidance.’.



Tudalen 71, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

*'Canllawiau ynghylch mynd i mewn i anheddau*

**[ ] Canllawiau ynghylch mynd i mewn i anheddau**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau gorfodi, cwnstabiliaid a swyddogion awdurdodedig ynghylch mynd i mewn i fangreoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd o dan y Ddeddf hon.
- (2) Rhaid i'r canllawiau gynnwys canllawiau ynghylch cydymffurfio â'r erthyglau a ganlyn o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol –
  - (a) Erthygl 8 (yr hawl i barch i fywyd preifat a theuluol), a
  - (b) Erthygl 1 o Brotocol 1 (gwarchod eiddo).
- (3) Rhaid i awdurdod gorfodi, cwnstabl a swyddog awdurdodedig roi sylw i'r canllawiau.'

**Caroline Jones**

41

Section 120, page 73, line 16, after '47(2)', insert '*[section to be inserted by amendment 37](5)*'.

Adran 120, tudalen 73, llinell 17, ar ôl '47(2)', mewnosoder '*[yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 37] (5)*'.

**David Melding**

31

Section 123, page 74, after line 16, insert –

*'( ) section [new section inserted by amendment 30];'*

Adran 123, tudalen 74, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

*'( ) adran [yr adran newydd sydd i'w mewnosod gan welliant 30];'*

**Angela Burns**

34

Section 123, page 74, after line 16, insert –

*'( ) section [new section inserted by amendment 33];'*

Adran 123, tudalen 74, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

*'( ) adran [adran newydd sydd i'w mewnosod gan welliant 33];'*

**Simon Thomas**

47

Section 123, page 74, after line 17, insert –

*'( ) sections [new section to be inserted by amendment 44] to [new section to be inserted by amendment 46];'*



Adran 123, tudalen 74, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

- (c) adrannau [yr adran newydd sy'n cael ei mewnosod gan welliant 44] i [adran newydd sy'n cael ei mewnosod gan welliant 46]; '.

**Rebecca Evans**

**28**

Schedule 1, page 75, line 13, leave out 'specified in regulations under section 15(1)' and insert 'authorised by virtue of section 15'.

Atodlen 1, tudalen 75, llinell 8, hepgorer 'a bennir mewn rheoliadau o dan adran 15(1)' a mewnosoder 'sydd wedi ei awdurdodi yn rhinwedd adran 15'.

**Rebecca Evans**

**29**

Schedule 1, page 77, line 20, leave out 'Where regulations under section 15 specify a local authority as an enforcement authority, the local' and insert 'An enforcement authority which is a local'.

Atodlen 1, tudalen 77, llinell 23, hepgorer 'Pan fo rheoliadau o dan adran 15 yn pennu awdurdod lleol yn awdurdod gorfodi, ni chaiff yr' a mewnosoder 'Ni chaiff awdurdod gorfodi sy'n'.

**Rhun ap Iorwerth**

**2**

Section 1, page 1, after line 13, insert –

- ( ) Part [Part inserted by amendment 3] makes provision for a national strategy on tackling obesity.'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- ( ) Mae Rhan [Rhan a fewnosodir gan welliant 3] yn gwneud darpariaeth ar gyfer strategaeth genedlaethol ar fynd i'r afael â gordewdra.'.

**Rebecca Evans**

**5**

Section 1, page 1, line 15, after 'places,', insert 'outdoor care settings for children,'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 16, ar ôl 'cyhoeddus,', mewnosoder 'mewn lleoliadau gofal awyr agored i blant,'.

**Caroline Jones**

**35**

Section 1, page 1, after line 30, insert –

- ( ) Part [Part inserted by amendment 36] makes provision about the tattooing of an eyeball (as defined in section [section to be inserted by amendment 38]).'

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ( ) Mae Rhan [Rhan a fewnosodir gan welliant 36] yn gwneud darpariaeth ynghylch tatwio pelen y llygad (fel y'i diffinir yn adran [yr adran sy'n cael ei ewnosod gan welliant 38]).'



**Simon Thomas**

**43**

Section 1, page 2, after line 16, insert—

'() Part [*Part to be inserted by amendment 44*] makes provision about a national air pollution strategy and guidance to be issued about air pollution levels, air quality outside schools and on active travel routes.'

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 18, mewnosoder—

'() Mae Rhan [*Rhan a fewnosodir gan welliant 44*] yn gwneud darpariaeth ar gyfer strategaeth llygredd aer genedlaethol ac i ddyroddi canllawiau ynghylch lefelau llygredd aer, ansawdd aer y tu allan i ysgolion ac ar lwybrau teithio llesol.'

**Rhun ap Iorwerth**

**1**

Long title, page 1, line 1, after 'provision', insert 'for a national strategy on tackling obesity';

Teitl hir, tudalen 1, llinell 1, ar ôl 'darpariaeth', mewnosoder 'ar gyfer strategaeth genedlaethol ar fynd i'r afael â gordewdra';

**Simon Thomas**

**42**

Long title, page 1, line 6, after 'toilets;', insert 'about air pollution and air quality';

Teitl hir, tudalen 1, llinell 6, ar ôl 'cyhoeddus;', mewnosoder 'ynghylch llygredd aer ac ansawdd aer';

